**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gyfrwng fideo gynadledda nos Fercher, 21 Mehefin 2023, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs. J.M. Evans, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, B. Mellor, P. Prendergast, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn y cyfarfod:
Y Cynghorydd Mrs. E. Chard (yn arsylwi)

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**4. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Ni chyflwynwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**5. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth bob cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 5.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Uned 4, Parc Manwerthur Cei'r Marina, Ffordd Wellington, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0356<br><br>**DISGRIFIAD:** Arddangos arwydd ffasgia wedi'i oleuo'n fewnol ar y wal ochr<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Nuruj Chowdhury o'r cyfeiriad uchod |

| | |
|---|---|
| | ***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 5.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 43 – 45 Stryd y Baddon, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0376<br><br>**DISGRIFIAD**: Uwchraddio a newid cynllun gosod dau dŷ tref Fictoraidd i ddarparu 6 fflat un ystafell wely a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Cyngor Sir Ddinbych<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 5.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 36-38 Stryd Bodfor, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0379<br><br>**DISGRIFIAD**: Gosod un drws newydd gyda gorchudd rholiwr a gosod giatiau diogeledd ar ddau ddrws sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Scott Cooke o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |

**6. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd bod y cyfarfod wedi diweddu.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: …..19.07.2023………...